# MOLD TOWN COUNCIL
# CYNGOR TREF YR WYDDGRUG

Town Hall
Earl Road
Mold
Flintshire
CH7 1AB

Telephone: 01352 758532
Fax: 01352 755804

**www.moldtowncouncil.org.uk**

Neuadd y Dref
Ffordd yr Iarll
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1AB

Ffộn: 01352 758532
Ffacs: 01352 755804

**Aelodau Cyngor Tref yr Wyddgrug**

21ain Mehefin 2024

Aelodau'r Cyngor

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gelwir trwy hwn i gyfarfod Cyngor Tref yr Wyddgrug a gynhelir am **6.00pm Ddydd Mercher 26ain Mehefin, 2024** yn Neuadd Eglwys Dewi Sant, Lôn Dewi Sant. Bydd ar gael hefyd drwy Gynhadledd Fideo fel cyfarfod hybrid, gwelwch y ddolen isod.

Yn gywir iawn,

Clerc y Dref a Swyddog Cyllid

## AGENDA

**CYFRANOGAETH Y CYHOEDD**

Mae ymrwymiad gan Gyngor Tref yr Wyddgrug i ymgysylltu â'r gymuned ac felly mae'n estyn croeso cynnes i aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod hwn. Mae Rheolau Sefydlog Cyngor Tref yr Wyddgrug yn caniatáu clustnodi 15 munud o dan yr eitem 'Cyfranogaeth y Cyhoedd' ar yr agenda gan ddyrannu hyd at 5 munud fesul pwnc.

Mae'n rhaid i'r rhai sydd eisiau cyfarch y cyfarfod o dan Gyfranogaeth y Cyhoedd:

- Roi gwybod i Glerc y Dref eu bod eisiau siarad, a hynny erbyn 4.30pm ar y diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor Tref.
- Gyfeirio pob sylw/cwestiwn at gadeirydd y cyfarfod.

Dylai aelodau'r cyhoedd nodi y bydd y cyngor ond yn trafod pynciau sydd wedi eu cyhoeddi ar yr agenda, a dim ond am y rhain y gall wneud penderfyniadau. Os na fydd unrhyw faterion yn cael eu codi, bydd cyfarfod y Cyngor Tref yn cychwyn am 6pm.

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

**2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

**Derbyn** unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb sy'n hysbys am eitemau ar yr agenda.

**3. TÎM PLISMONA LLEOL GOGLEDD CYMRU**

Mae'r Cynghorydd Bithell wedi gofyn bod y tîm plismona lleol yn derbyn gwahoddiad i'r cyfarfod i drafod y canlynol:

(i) Fandaliaeth mewn Mannau Chwarae yn y Dref (Ffordd Pentre a St Mary's Park).

(ii) Defnyddio beiciau a sgwteri (yn cynnwys rhai trydan) ar balmentydd a ffyrdd.

Bydd aelod o'r tîm plismona lleol yn ceisio ymuno â'r cyfarfod drwy Zoom ond mae ei bresenoldeb yn ddibynnol ar y galw gweithredol parhaus

**4. CYHOEDDIADAU'R MAER**

**Derbyn** Cyhoeddiadau'r Maer

**5. COFNODION**

5.1 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd ar 22$^{ain}$ Mai 2024 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

5.2 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 3$^{ydd}$ Mehefin 2024 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

5.3 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 4$^{ydd}$ Mehefin 2024 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

5.4 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod Pwyllgor y Cyngor Ieuenctid a Phlant a gynhaliwyd ar 17$^{eg}$ Mehefin 2024 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

**6. GOHEBIAETH**

**Nodi**'r ohebiaeth ddilynol a dderbyniwyd a **chytuno** lle bo raid ar y camau gweithredu sy'n angenrheidiol:

(i) **Nodi** gwybodaeth a dderbyniwyd ar gyfer Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

(ii) **Nodi** y wybodaeth a dderbyniwyd gan Darren Morris am Gynlluniau Chwarae'r Haf a **thrafod** a yw'r Cyngor Tref eisiau

prynu baneri i hysbysebu Cynlluniau Chwarae yr Wyddgrug am gost o £40 y faner.

(iii) **Nodi**'r e-bost a dderbyniwyd gan Hamdden a Llyfrgelloedd Aura am Ffit, Bwyd a Darllen.

## 7. ADRODDIAD Y SWYDDOG DIGWYDDIADAU A CHYMUNED

**Derbyn** adroddiad gan y Swyddog Digwyddiadau ac Ymgysylltu â'r Gymuned (ynghlwm)

## 8. RHESTR WEITHREDU

**Nodi**'r diweddariadau ar y Rhestr Weithredu barhaus

## 9. GWASANAETH CASGLU SBWRIEL CYNGOR SIR Y FFLINT

**Trafod** pryderon mewn perthynas â Gwasanaeth Casglu Sbwriel CSFf (gwelwch yr e-bost sydd ynghlwm).

## 10. Y DIWEDDARAF AM CITTASLOW

**Derbyn** y diweddaraf ar lafar gan y Cynghorydd Catherine Frances Claydon-Hill am y canlynol:

- Cynulliad Rhyngwladol Cittaslow – 20fed-23ain Mehefin
- Stondin Cittaslow yng Ngŵyl Fwyd a Diod Yr Wyddgrug
- Cyfarfod Gweithgor Cittaslow – 8fed Gorffennaf

## 11. 50fed PEN-BLWYDD CYNGOR TREF YR WYDDGRUG

**Trafod** syniadau posibl am Ddathlu 50fed Pen-blwydd Cyngor Tref yr Wyddgrug.

## 12. PWYLLGOR CYLLID

(i) **Trafod** y posibilrwydd o roi pwerau dirprwyedig i'r Pwyllgor Cyllid (mae'r Cylch Gwaith ynghlwm).

(ii) **Nodi**'r Adroddiad Cyllid a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid (ynghlwm).

(iii) **Ystyried** yr argymhelliad gan y Pwyllgor Cyllid:

a. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn argymell cau'r Cyfrif Banc ar gyfer Cronfa Elusen y Maer. Y codiannau banc am gael y cyfrif yw £8.00 y mis. Ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o'r incwm a thaliadau ar gyfer Elusen y Maer yn symud drwy Gyfrif y Banc Cymunedol. Cedwir cofnod o'r incwm a gwariant ar gyfer Elusen y Maer ar y system Rialtas.

## 13. Y PWYLLGOR POLISI AC ARCHWILIO

Mae'r Pwyllgor Polisi ac Archwilio'n argymell i'r Cyngor Tref bod y Polisïau a ganlyn yn cael eu derbyn:

(i) Polisi Coed – (Pwyllgor Mynwentydd)
(ii) Polisi Grant Cymunedol (Pwyllgor Cyllid)
(iii) Ffurlfen Gais am Grant Cymunedol (Pwyllgor Cyllid)

## 14. CADWYN I GYDWEDDOG Y MAER

Hoffai'r Cynghorydd Paul Beacher **drafod** y posibilrwydd o brynu cadwyn i Gydweddog y Maer.

## 15. ARCHWILIAD 2023-2024

**Ystyried** y dogfennau a ganlyn:
(i) Yr adroddiad gan yr Archwilydd Mewnol,
(ii) Y Datganiad Blynyddol a'r arddeliadau llywodraethu ychwanegol gyda gwybodaeth gefnogol.
(iii) Dogfennaeth ychwanegol i gyd-fynd â'r Datganiad Blynyddol i Archwilio Cymru.

**Awdurdodi** llofnodi'r ddogfennaeth.
**Derbyn** ac ystyried y cyfrifon terfynol fel y maent wedi eu cyflwyno.

<u>Nodwch nad ydym eto wedi derbyn yr adroddiad terfynol o Archwiliad Llawn 2022-23.</u>

## 16. HYSBYSIAD AM BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

**Nodi**'r adroddiad sydd ynghlwm.

## 17. CYFRIFON / TALIADAU

**Cymeradwyo** yr amserlenni sydd ynghlwm yn dangos y cyfrifon i gyd – Mis 3 yn nodi bod taliadau'n cael eu gwneud yn unol â phwerau'r cynghorau lleol.

## 18. EITHRIO'R CYHOEDD A'R WASG

**Ystyried** eithrio'r cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod er mwyn caniatáu trafodaeth ar faterion cyfrinachol.

## 19. RHAN 2 ADNODDAU DYNOL AC IECHYD A DIOGELWCH

**Derbyn** argymhelliad ar lafar gan y Pwyllgor Polisi ac Archwilio mewn perthynas â'r dyfynbrisiau Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch a dderbyniwyd (mae dogfen drosolwg ynghlwm).

## 20. RHAN 2 – PRYNU NEUADD Y DREF

**Trafod** yr e-bost sydd ynghlwm a dderbyniwyd am bris prynu Neuadd y Dref,

**NODWCH:**
Mae caniatâd i aelodau'r wasg a'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod hwn (ond nid i siarad heblaw eu bod wedi trefnu hynny o flaen llaw gyda Chlerc y Dref a'r Swyddog Cyllid).

**CYFARWYDDIADAU ZOOM**

**Ymuno â'r Cyfarfod Zoom**

**https://us02web.zoom.us/j/87683631159?pwd=EKrFY8ZYhhkFttaudz944D0mZwutGU.1**

**ID y Cyfarfod: 876 8363 1159**
**Cyfrinair: 405387**